# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 13 Chwefror 2012, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Howie Roberts (Cadeirydd) | Cadeirydd - Conwy |
| | Samuel Adams | Is-Gadeirydd - Conwy |
| | Lynn Ball | Swyddog Monitro – Ynys Môn |
| | Gwilym Ellis Evans | Is-Gadeirydd - Gwynedd |
| | Clive B. Halliday | Gadeirydd – Sir Ddinbych |
| | Anwen Jones | Swyddog Monitro – Sir y Fflint |
| | Delyth E. Jones | Swyddog Monitro – Dros Dro - Conwy |
| | Islwyn Jones | Is-Gadeirydd – Ynys Môn |
| | Lisa Jones | Dirprwy Swyddog Monitro – Sir Ddinbych |
| | Geraint F. Roberts | Is-Gadeirydd – Sir Ddinbych |
| | Peter Rowland | Cadeirydd – Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Kevin Sibbons | Is-Gadeirydd – Sir y Fflint |
| | Sian Walter-Browne | Dirprwy Swyddog Monitro - Wrecsam |
| | Ceri Williams | Dirprwy Swyddog Monitro - Conwy |
| | Michael B. Wilson | Cadeirydd – Ynys Môn |
| **Swyddogion:** | Sian Harland | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor - Conwy |

30. **YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb gan Trevor Coxon (Wrecsam), Rob Dawson (Wrecsam), Jane Eyton-Jones (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru), Sion Huws (Gwynedd), Robyn Jones (Ynys Môn), Ceri Nash (Wrecsam), Dilys Ann Phillips (Gwynedd), John Pollard (Gwynedd), Merfyn Roberts (Sir y Fflint) a Gary Williams (Sir Ddinbych).

31. **COFNODION**

Rhoddodd Geraint Roberts (Gwynedd) wybod ei fod wedi rhoi ymddiheuriad ar gyfer y cyfarfod diwethaf.

Awgrymwyd y dylid rhoi'r gair *'cofrestru'* o flaen pob cyfeiriad at Anrhegion a Lletygarwch.

**CYTUNWYD-**

**I gymeradwyo cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2011 fel cofnod cywir, yn amodol ar wneud y newidiadau uchod.**

32. **CYLCH GORCHWYL**

Roedd yr eitem hon wedi'i gohirio o'r cyfarfod diwethaf er mwyn sicrhau bod mwy o Aelodau'n bresennol.

Rhoddodd y Swyddog Monitro (Conwy) wybod mai pwrpas y Grŵp oedd sicrhau cysondeb rhwng y 6 Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â gwaith Pwyllgorau Safonau. Yn y Fforwm, gallai Awdurdodau Lleol rannu arferion da a chwilio am atebion i broblemau a oedd ganddynt. Er bod nifer o benderfyniadau y byddai'n rhaid i'r Pwyllgorau Safonau unigol eu gwneud, gallai achlysur godi pan fyddai angen i'r Fforwm wneud penderfyniad, er enghraifft, ynghylch a ddylid ysgrifennu ar y cyd at yr Ombwdsmon.

Cafodd Aelodau drafodaeth hir ar y Cylch Gorchwyl a chytuno ar y canlynol:-

- Aelodaeth – Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Swyddog Monitro, a'r Dirprwy Swyddog Monitro neu Aelodau Annibynnol eraill o Bwyllgorau Safonau'n bresennol fel dirprwyon
- Pleidleisio – un bleidlais i bob Awdurdod Lleol a'r bleidlais fwrw gan Gadeirydd y Fforwm
- Ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – bob dwy flynedd er mwyn cael cysondeb
- Gweinyddiaeth – gallai symud gyda'r Cadeirydd, ond byddai angen cynllunio ar gyfer olyniaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod Conwy'n lle canolog ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm
- Amlder Cyfarfodydd – cyfarfodydd chwarterol gan drefnu cyfarfodydd pellach yn ôl yr angen

**CYTUNWYD-**

**I osod Cylch Gorchwyl Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru fel y mae uchod.**

33. **QUESTIONS FOR THE OMBUDSMAN**

Gan fod Aelodau wedi cytuno i wahodd yr Ombwdsmon i gyfarfod nesaf y Fforwm, awgrymwyd y dylid rhoi unrhyw gwestiynau i'r Ombwdsmon cyn y cyfarfod, fel y gallai'r Ombwdsmon ateb unrhyw gwestiynau'n llawn.

Rhoddodd y Swyddog Monitro (Ynys Môn) wybod bod yr Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau ar y drefn o ddelio â mân gwynion ac y byddai'r rhain yn cael eu dosbarthu i'r holl Swyddogion Monitro yn unol â hyn.

Cynigiwyd y cwestiynau/ceisiadau am wybodaeth a ganlyn:-

- Toriadau Ffiniol neu Lefel Isel – mae Pwyllgorau Safonau'n awyddus i gymryd rhan: ym mha ffordd y gallent wneud hynny, ym marn yr Ombwdsmon?
- A oedd yn bosibl cael dull lleol o ddatrys cwynion 'dant am ddant' rhwng Cynghorwyr?

- Rheoliadau Indemniad a Phrotocol Lleol – gofynnwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adrodd yn ôl ar hyn: a oedd yr Ombwdsmon am fynegi barn am hyn?
- Mwy o ganllawiau ar ddehongli'r Cod Ymddygiad oddi wrth yr Ombwdsmon
- Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad – a allai Cynghorau ei gwneud yn orfodol i Gynghorwyr Sir gael hyfforddiant? Deallwyd bod Cyngor Caerdydd wedi'i gwneud yn orfodol i Gynghorwyr ddilyn Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad: a oedd yr Ombwdsmon yn gwybod sut yr oedd hyn wedi'i gyflawni? Pa rwystrau a allai godi mewn cysylltiad â hyn?
- Pa wybodaeth a oedd gan yr Ombwdsmon am Fforymau Safonau eraill a oedd wedi'u sefydlu neu a oedd yn yr arfaeth ac, os oedd rhai, beth oedd eu cylch gorchwyl?
- Beth oedd gweledigaeth yr Ombwdsmon ar gyfer Pwyllgorau Safonau yn y dyfodol?
- Oedi wrth wneud penderfyniadau gan yr Ombwdsmon ac ymchwilio i gwynion: beth oedd y sefyllfa bresennol/y camau a gymerir i ddelio â hyn?
- Nid oedd yn ymddangos bod manylion am doriadau ar wefan Cymru ar gyfer yr Ombwdsmon: a ellid ystyried hyn?

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y byddai materion a godwyd yn cael eu cylchredeg ac y dylid cynnig unrhyw gwestiynau eraill cyn y cyfarfod nesaf.

**CYTUNWYD-**

**Y byddai'r cwestiynau/ceisiadau am wybodaeth yn cael eu cylchredeg ac y dylid cynnig unrhyw gwestiynau eraill cyn y cyfarfod nesaf.**

34. **RÔL PWYLLGORAU SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Trafododd Aelodau anghenion hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned mewn cysylltiad â'r Cod Ymddygiad.

Roedd Conwy wedi darparu Sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned, ac wedi darparu pecynnau hyfforddi.

Roedd eitem sefydlog ar raglen Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych ynghylch toriadau gan Gynghorau Tref a Chymuned. Roedd y Pwyllgor wedi cael bod hyn yn ddull effeithiol o fonitro anghenion hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned a byddai'n targedu'r Cynghorau hynny lle'r oedd toriadau'n digwydd.

Hysbyswyd Aelodau fod Un Llais Cymru wedi recriwtio 12 Hyfforddwr, ac wedi cynnig gwasanaethau'r Hyfforddwyr hynny i ddarparu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Gynghorau Tref a Chymuned, ar y cyd ag Awdurdodau Lleol. Roedd Un Llais Cymru yn gorff cynghori yr oedd Cynghorau Tref a Chymuned yn talu ffi danysgrifio fach iddo.

Gan fod yr Ombwdsmon wedi'i wahodd i'r cyfarfod nesaf, awgrymwyd gwahodd Cyfarwyddwr Un Llais Cymru hefyd i drafod materion sy'n ymwneud â hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad mewn cysylltiad â Chynghorau Tref a Chymuned.

**CYTUNWYD-**

**Y bydd Cyfarwyddwr Un Llais Cymru yn cael ei wahodd i gyfarfod nesaf y Fforwm i drafod materion sy'n ymwneud â hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad mewn cysylltiad â Chynghorau Tref a Chymuned.**

35. **COFRESTR ANRHEGION A LLETYGARWCH**

Cafwyd trafodaeth gan Aelodau am y gwahanol lefelau y mae Cynghorau'n eu gosod, cyn bod angen i Gynghorwyr gofrestru Anrheg neu Letygarwch a dderbyniwyd.

Rhoddodd y Swyddog Monitro (Sir Ddinbych) wybod bod Sir Ddinbych wedi codi'r lefel o £0 i £20.

Cytunodd Aelodau y byddai'n fuddiol cael lefel benodedig ledled Cymru.

Ar ôl trafod y gwahanol lefelau sydd wedi'u gosod gan yr awdurdodau, cytunwyd y dylid cael lefel unffurf o £25 i bob un o'r chwe awdurdod ac y dylid mynd â'r awgrym hwn yn ôl i'r awdurdodau unigol er mwyn ystyried gwneud y newidiadau angenrheidiol yn eu priod gyfansoddiadau.

**CYTUNWYD-**

**Bod Fforwm Safonau Gogledd Cymru o blaid mabwysiadu terfyn o £25 ar gyfer cofrestru Anrheg neu Letygarwch ym mhob un o'r chwe awdurdod sy'n aelodau ac y bydd Aelodau'r fforwm yn mynd â'r awgrym hwn yn ôl i'w priod awdurdodau i'w ystyried.**

36. **CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

Cynigiodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (Gwynedd) y dylai 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru drefnu a chynnal y Gynhadledd Safonau nesaf i Gymru gyfan yng Ngogledd Cymru yn ystod gwanwyn 2013.

Byddai unrhyw gostau'n cael eu rhannu rhwng 6 Awdurdod Gogledd Cymru, a'r Gynhadledd yn cael ei chynnal un ai yng Nghonwy neu yn Llandudno.

Cytunodd y Swyddog Monitro (Conwy) i gysylltu â Chyngor Sir Powys, a drefnodd y Gynhadledd ddiwethaf, i gael gwybod y gost a sut yr oedd awdurdodau a oedd yn barod i gynnal y gynhadledd yn cael eu dewis.

Gellid gwahodd siaradwyr o'r sectorau preifat neu academaidd, er mai'r gobaith oedd y byddai unrhyw siaradwr o'r sector preifat yn rhoi o'i amser am ddim.

Cytunodd Aelodau â'r syniad, mewn egwyddor, ond byddent yn gwneud y penderfyniad terfynol yn y cyfarfod nesaf, ar ôl cael gwybod am y costau.

Yn y cyfamser, gellid ymgynghori â'u priod Bwyllgorau Safonau am y cynnig a gofyn am eu barn.

**CYTUNWYD-**

**I gymeradwyo'r cynnig i gynnal Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan yng ngwanwyn 2013 yn Llandudno, mewn egwyddor, ac y gwneir y penderfyniad terfynol yn y cyfarfod nesaf, ar ôl cael gwybod am y costau.**

37. **UNRHYW FATER ARALL**

Awgrymwyd y gellid cynnwys manylion am unrhyw leoedd gwag i Aelodau Annibynnol ar Bwyllgorau Safonau yn y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol, er gwybodaeth.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm)